

**Siambr Fasnach a Thwristiaeth**  
**Bro Ffestiniog**  
**Chamber of Commerce & Tourism**  
**Cofnodion / Minutes 29/04/13**

**Presennol:** Rhiannon Jones – Brethyn Blaenau, Roger Clear – Taurus Designs, Bob Cole – Cyngor Tref Ffestiniog / Blaenau Ymlaen, Ann Cole – Blaenau Ymlaen, Debbie & Malcolm Jones – Debbie's Cake'ole, Alister Haveron – Dolawel, John Whitehead – Bryn Elltyd, Sue Roberts – Sues Book Shop, Kevin Baldwin – Caffi Deniros, Chris & Iris Fosbury – Efion Stores, Clare Britton – Rhielffordd Ffestiniog a Rheilffordd Ucheldir Cymru, Zoe & Ann Pritchard – Parti 4, Owain Williams – Natwest, Owain Williams - NatWest, Steve & Linda Chesworth – Amazing Drapes, Annette Davies – The Bear Mountain, Jodie Catlin – Trawsfynydd Holiday Village, Gill Vescio – Gwesty Isallt, Tracey Warner – Glasspirations, Gaile Weir – Caffi'r Bont, Dave Taylor – GPS 4x4 Discovery Treks, Christine Rhisiart – Coleg Llandrillo .

1. **Ymddiheuriadau** – Mandy Williams-Davies - Cyngor Tref Ffestiniog / Cyngor Gwynedd, Carwyn Jones – Y Siop Werdd, Ceri Cunnington – Antur' Stiniog, Paul Thomas – Cyngor Gwynedd / Cyngor Tref Ffestiniog, Meirion Ellis – Cambrian News, Nia Roberts – Siop y Gloddfa, PC Dylan Jones – Heddlu Gogledd Cymru, Huw Jenkins – Campbell's Cottage. Croesawodd Clare bawb.
2. **Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf a Materion yn Codi:** Gofynnwyd am newid i bwynt 8 o'r cofnodion ddiwethaf – nad oedd Delwedd yn gweld Bai arnym ni fel siambr ond yn hytrach y system weithredol cyfrifiadurol. Cytuniwyd i weddill y munudau. Cadarnhaodd Bob fod 2 bin arall wedi eu harchebu gan Balfou Beatty, un i'w osod yn y pwynt arsylwi, llall ger y 'Royal Welsh'. Holodd Roger os oedd Cyngor Tref Ffestiniog am noddi 'Blaenau yn ei Blodau' eleni – cadarnhaodd Bob fydd hyn yn cael ei drafod mewn is-bwyllgor yn fuan. Cadarnhad wedi ei dderbyn fod y GTCC yn weithredol a bod 3 unigolyn niwtral yn ogystal â'r Heddlu yn gyfrifol amdanynt. Nid yw'r cyhoeddiad yma yn gyhoeddus eto – cyfrifoldeb yr Heddlu fydd cyhoeddi hyn.
3. **Heddlu** – PC Dylan Jones a'r PCSO's eraill yn methu bod yn bresennol, ond hapus i unrhyw faterion cael eu danfon ymlaen iddynt. Holodd Roger os oedd pobl gwasanaethu cymunedol dal ar gael i wneud dyletswyddau cyffredinol o amgylch y dref – Zoe i holi'r Heddlu. Adroddodd Chris a Roger ar gyfarfod diogelwch beiciau a fynychiwyd, Heddlu wedi nodi bwriad o ymweld â holl ddarparwyr llety gwyliau'r ardal i drafod diogelwch beiciau yn ogystal â chynnal diwrnod agored i farcio beiciau â laser – darparwyr llety gwyliau a oedd yn bresennol yn y siambr yn nodi diffyg ymweliad. Zoe i holi'r Heddlu.
4. **DYFODOL** – Christine Rhisiart o Goleg Llandrillo yn bresennol i drafod cynllun DYFODOL sydd ar gael i unrhyw fusnes a pherson hunan-gyflogedig. Telir £50 bob aelod o staff, a derbynir rhestr hir o hyfforddiant gellir ei fynychu am ddim gan gynnwys Glendid Bwyd, WorldHost Cymru, Cymorth Cyntaf, Cynnal a chadw llyf gadwyn, Gosod paneli solar, Cyfryngau cymdeithasol i fusnesau a llawer mwy. Cynllun yn dod i ben Mehefin 2014. Byddai Coleg Llandrillo yn fodlon cynnal cwrs ym Mlaenau ond angen lleiafswm o 10 i fynychu. Cysylltwch â Christine ar 01341 424904 i drafod pa hyfforddiant sydd ar gael, nodwch bydd Christine ar famolaeth diwedd Mai, ond bydd aelodau eraill o'r tim ar gael i'ch cynorthwyo. Os ydych a diddordeb cynnal cwrs yma yn Blaenau, cysylltwch â Zoe.
5. **Adroddiad y Trysorydd** – Cadarnhaodd Iris bod 51 o aelodau wedi talu gyda £785 yng nghyfrif banc y siambr. Cedwir yr arian am gyfnod er mwyn gallu cynnal y wefan pan fydd y cyfnod di-dal yn dod i ben.
6. **Adroddiad Swyddog Aelodau** – Sue mewn cyswllt gydag aelodau newydd, 2 aelod newydd yn mynychu'r cyfarfod am y tro cyntaf. Sue dal i recriwtio rhagor. Cafwyd gyflwyniad byr am eu busnesau i'r siambr:  
GPS 4x4 Discovery Treks: Wedi ei leoli yn Manod, cynnig amrywiaeth eang o wasanaethau gan gynnwys gweryslla gwyllt, cysylltiadau trafndiaeth a gwyliau 4x4.

Glasspirations: Eitemau gwydr ymdoddedig i'r cartref gan gynnwys matiau diod, clociau, dalwyr kannwyll a desglau sebon. Gobeithio ymgysylltu gyda Parti4 i werthu'r cynnyrch yn y siop. Yn ganol sefydlu a phrynu kiln er mwyn gallu cynhyrchu'r eitemau adra. Manylion cyswllt i'w rhoi ar wefan Bl.Ffest yn fuan.

7. **Adroddiad Swyddog Marchnata / Gwefan** - Dywedodd Alister bod hi'n agosau at yr amser pan fydd busnesau sydd heb dal ffi aelodaeth y siambr yn cael eu tynnu o'r wefan. Os ydych angen newid manylion y busnes, gyrru lluniau a bargeinion diweddaraf yna cysylltwch gyda Alister. Ystadegau'r wefan wedi eu dosbarthu yn ystod y cyfarfod. Alister wrthi'n trefnu cyfarfod c.g.a.ph gyda Delwedd er mwyn trafod materion a hyfforddiant i'r wefan i sicrhau cynaliadwyedd i'r dyfodol. Nifer o fusnesau wedi gofyn am ystadegau i ddangos nifer yr ymwelwyr wefan yn mynd ymlaen i'w gwefan nhw – hyn yn amhosib i'w fonitro yn sgil ymsefydliad y wefan. Gofynnodd Clare os oedd modd i'r dudalen fusnesau cael eu categorio neu gynnwys dull chwilota gan bod y rhestr hir yn ymarferol., enwedig i'r busnesau sydd reit ar waelod y rhestr. Alister i roi copi o'r cylchlythyr cyntaf ar y wefan. Diolchodd Clare iddo am ei holl waith caled ag amser i ofalu am y wefan.
8. **Blaenau Ymlaen** – Gwaith adfywio ar y cam olaf o dwtio'r gwaith. Ymarferiad Siopwyr Dirgel wedi digwydd yn y dref yn ystod gwyliau'r Pasg gydag adroddiadau unigol a chyfrinachol yn cael eu dosbarthu i'r busnesau'n fuan. Trefnir cyfarfod ar Ddydd Llun, 13eg o Fai, 2013 am 7yh yn Siambr y Cyngor i drafod cafyddiadau cyffredinol. Croeso i bawb. Awgrymiwyd gosod map o Blaenau a gweithgareddau masnachol yng nghanol y dref i oleuo'r holl stryd, cytunodd Bob i godi hyn yng nghyfarfod nesaf y bwrdd prosiect. Gwaith adfywio ar rhestr fer am 3 gwobr bwysig, gan gynyddu proffil yr ardal yr un pryd. Cardiau post gyda lluniau o Blaenau wedi eu printio a'u dosbarthu am ddim o amgylch y siopau yn fuan. Oddeutu 2000 o hen lyfrau tywys y dref dal yn swyddfeydd y Siambr ac ar gael i unrhyw fusnes. Gwaith adnewyddu'r toiledau yn symud ymlaen a disgwylir ei gwblhau o fewn y misoedd nesaf- mi fydd yn cynnwys gwaith celf unigryw.
9. **Antur Stiniog** – Ymddiheuriadau gan Ceri Cunningham am fethu a mynychu'r cyfarfod yn sgil amgylchiadau annisgwyl. Darllenodd Zoe ei adroddiad i'r siambr:
  - 5300 o beicwyr wedi bod i'r safle.
  - Wedi prynu 3ydd Bws Mini er mwyn ateb gofyn
  - Canolfan Ymwelwyr yn agored canol mis Mai.
  - Hysbyseb am swyddi, gyrrwr bws mini a cogydd yn y papur wythnos yma. Fydd Antur Stiniog yn cyflogi 13 o bobl leol erbyn dechrau Mehefin.
  - Cynlluniau cyffroes ar y gweill i symyd i adeilad newydd yng nghanol dref er mwyn hyrwyddo gwaith ac fel rhyw fath o Ganolfan ymwelwyr/Siop Awyr Agored/Man Gwybodaeth/Canolfan hyfforddiant ar y cyd a Coleg Meirion Dwyfor. Watch this space!
  - Gwyl beicio DhFFest yn digwydd Gorffennaf 13 a 14 efo 300 o feicwyr tua 1000 o ymwelwyr a cerddoriaeth yn cael ei drefnu o amgylch tafarndai'r dref gan Gai Toms
  - Red Bull wedi dangos diddordeb mewn noddi ni.
  - Dechrau adeiladu Llwybr Llyn Tanygrisiau yn y mis neu ddau nesa - Agored erbyn diwedd y flwyddyn.
  - Llwybr cyswllt i ganol y dref yn barod erbyn diwedd y flwyddyn
  - Cynllun Y Felorel dal ar y gweill- Diwrnod llunau wedi trefnu ar y cyd a'r Dref Werdd, Cyngor Tref a Network Rail ar gyfer Mai 15fed
  - Cyd weithio efo 'Cofio Cwmorthin' ar cais i'r Loteri i adfail adeiladau yno a gosod byrddau gwybodaeth.
  - Mae drws ni ar agor cysylltwch os am sgwrs a panad.....
10. **Twristiaeth** – Manylodd Clare ar benblwydd 150 stêm Rheilffordd Ffestiniog ag Ucheldir Cymru a gynhelir dros wyl y banc. Mae Princess, un o beiriannau stêm y rheilffordd wedi ei leoli yng ngorsaf 'Paddington' a dosbarthwyd dros 10mil o bamffledi a oedd yn cynnwys wefan Blaenau Ffestiniog arnynt. Pamffledi hefyd wedi eu dosbarthu mewn gala diweddar a digwyddiad rheilffordd fodel yn Peterborough. Ymhelaethodd Iris a Clare ar daith ymweld diweddar gan Gymdeithas Lletygarwch Llandudno i Flaenau Ffestiniog, lle roedd y gwaith adfywio wedi creu argraff mawr arnynt yn ogystal â

gwaith y siambr. Cymdeithas Dwristiaeth Betws y Coed hefyd yn awyddus am daith ymweld er mwyn cyd-hyrwyddo a hybu cynigion Blaenau i ymwelwyr Betws. Clare am cydlynu ymweliad.

Sadwrn 4ydd o Fai mae Llechwedd yn cynnal ffair Fictorianaidd yn y bore gyda'r holl weithgareddau yn symud i'r gorsaf erbyn amser cinio, ar gyfer gweithgareddau Rheilffordd Ffestiniog. Codwyd y ffaith na ddosbarthiwyd unrhyw bosteri o amgylch y dref i hyrwyddo'r digwyddiadau, nododd Clare dylai fod hynny wedi digwydd. Gwnaed cais hefyd i siopau'r stryd dderbyn amserlenni 2013 y rheilffordd. Atgoffwyd fod yr Hen Bost nawr yn cynnwys Pwynt Gwybodaeth i ymwelwyr.

Nododd Huw rhai bwyntiau pellach dros e-bost gan gynnwys linc i fideo YouTube Ras y Moelwyn, a bod nifer o teithiau tywys wedi eu trefnu o amgylch Blaenau ar y 4ydd o Fai gan gynnwys ymweliad i felin Falcon Hildred. Cymdeithas Eryri yn croesawu aelodau newydd lleol sef Rheilffordd Ffestiniog, Plas Tan y Bwlch a Bryn Elltyd. Cynhelir Ffair EcoBro yn Penrhyndeudraeth ar y 18fed o Fai rhwng 10yb – 4yh.

Nodyn atgoffa dyddiadau eraill: 16eg o Fehefin – Hwyl yn y Parc, 23ain o Fehefin – Carnifal Tanygrisau.

11. **U.F.A** - \*Cododd aelodau bryderon a siom am newyddion bod Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn dosbarthu talebion gwella cartrefi i'w trigolion a oedd yn gymwys mewn busnesau tu allan i Flaenau yn unig. Siom enfawr nad oedd y talebion yma yn gallu cael ei defnyddio yn y dref er mwyn gallu cefnogi'r economi leol. Cais i'r siambr ymgysylltu gyda Cyngorwyr Mandy a Paul i godi'r mater. Clare i ysgrifennu'r llythyr. \*Dywedodd Linda nad oedd rhagor o fagiâu baw cwn ar gael yn siopau lleol. Annette yn gofyn i'w siop hi fod ar y rhestr hefyd i ddosbarthu. Zoe i gysylltu gyda Paul Thomas i holi am rhagor o fagiâu. \* Llythyr i wrthwynebu cau'r ysbyty lleol heb dderbyn ymateb eto. Zoe i ail-yrru a gyrru copiau i'r aelodau. \*Codiwyd pryderon am eiddo gwag ar y stryd fawr a oedd yn effeithio ar eiddo busnesau – cytuniwyd i yrru cais i'r Swyddog Tai gwag Cyngor Gwynedd i fynychu'r cyfarfod nesaf i drafod materion a chynlluniau cyfoes. \*Newyddlen nesaf y siambr i'w ddosbarthu ar ddechrau Mehefin felly gyrrwch unrhyw wybodaeth i unai Clare neu Zoe.
12. **Dyddiad y cyfarfod nesaf dydd Llun y 15fed o Orffennaf, 2013 am 7yh yn Siambr y Cyngor, 5 Stryd Fawr.**